

## BODVEL (TEULU), Bodfel, Sir Gaernarfon, Caerfryn, sir Fôn, etc.

Y mae teulu Bodvel yn olrhain eu tras i Gollwyn ap Tangno. Daethant i sylw gyntaf ym mherson JOHN WYN AP HUGH, Bodvel (bu farw 1576), a gariai'r faner frenhinol dros iarll Warwick (Northumberland wedi hynny), ac a wobrwyyd trwy gael Ynys Enlli. Carcharwyd ei fab HUGH GWYN (BODVEL), a fu farw 1611, am iddo wrthwynebu iarll Leicester (mab noddwr ei dad) pan oedd hwnnw yn ' Ranger of Snowdon Forest '; tra bu yng ngharchar rhoddwyd comisiwn i **Nicholas Robinson**, esgob Bangor, ac **Elis Prys** i chwilio i mewn i'w berthynas - fel 'known papist ' - â'i frawd-yng-nghyfraith **Hugh Owen, Plas-du (1538 - 1618)**, a oedd yn alltud yn Brussels. Ni chafwyd tystiolaeth a'i gwnâi yn euog ac, yn 1589, ar ôl iddo ymgymodi â Leicester, gwnaethpwyd Bodvel yn aelod seneddol dros sir Gaernarfon; bu hefyd yn siryf y flwyddyn honno ac yn 1597.

### ROGER GWYNNE (1577 - 1605?), offeiriad Catholig a chenhadwr

Mab neu frawd iau i Hugh Gwyn (Bodvel). Pan oedd yn ieuanc daeth dan ddylanwad y **Tad William Davies (bu farw 1593)**, ac yng ngofal hwnnw ac ar ei ffordd i'r Iwerddon yr oedd ef (a thri arall a oedd hefyd yn bwriadu paratoi ar gyfer yr offeiriadaeth), a than ofal **Robert Pugh**, Penrhyn, pan gymerwyd ef a hwythau i'r ddalfa yng Nghaergybi (1591) a'u carcharu am dri mis ym Miwmares; gwrthododd y tri ddatgyffesu er iddynt ddiodesf artaith. Pan ryddhawyd ef aeth Gwynne i Sbaen a dechrau astudio yn ysgol y Catholigion yn Valladolid yn 1596. Ordeiniwyd ef yn 1602 a chafodd ei anfon i'r genhadaeth yng Nghymru y flwyddyn ddilynol eithr daliwyd y llong yr oedd arni pan oedd ar ei ffordd i Abertawe; holwyd Gwynne gan yr awdurdodau ac anfonwyd ef i Dwr Llundain a'i gyhuddo (er nad mewn llys) o gyffesu iddo fod yn cynllwyn i ladd Iago I. Awgryma Gardiner (*Hist.*, i, 106) i'r 'gyffes' hon beri i'r blaid a oedd yn elynol i Sbaen yng nghyngor y brenin deimlo ei bod wedi ennill buddugoliaeth; eithr hwy, efallai, a dyfeisiodd y 'gyffes.' Cadwyd Gwynne yn y Twr hyd 1605 ac ni chlywyd sôn amdano wedyn.

### ROBERT GWYNNE (fl. 1578)

Y mae'n bosibl ei fod o'r un teulu, ond ni ddaeth golau ar ei dras ef hyd yn hyn (gweler dan **Gwynne**).

### CHARLES GWYNNE, alias Bodvel neu Bodwell, alias Browne (1582 - 1647), cenhadwr dros y Jesiwitiaid

Mab oedd ef i Thomas Wynn, Boduan, ger Pwllheli (mab iau John Wynn ap Hugh Bodvel), ac Elisabeth, merch Owen ap Gruffydd, Plas Du, a chwaer **Hugh Owen**. Magwyd Charles yn Brotestant a bu dan addysg ('learned grammar') yn ei sir ei hun, ond wedi iddo ymgymodi â Rhufain (trwy offerynliaeth y Tad J. Chambers) pan oedd yn ymweld â **Hugh Owen** yn Brussels aeth i'r Coleg Seisnig yn Rhufain, lle yr ordeiniwyd ef yn 1613. Fe'i danfonwyd yn 1623 ar genhadaeth Gymreig St. Francis Xavier. Gwnaethpwyd y Cwm, Llanrhyddol, yn bencadlys talaith newydd Cymdeithas Iesu ym 1622 a'i alw yn goleg S. Xaverius. Bu'r tad, **John Salusbury**, farw yn 1625 a dilynwyd ef yn y rheithoriaeth gan Bodvel.

Cafodd gan ei ewythr Hugh Morgan, Hilton, foddion i gynnal Cymro fel efrydydd yn Rhufain, ac felly y gallodd **David Lewis** (bu farw 1679), nai y **Tad Augustine Baker** (1575 - 1641), fynd i'r Coleg Seisnig yn 1638. Yn 1618 cafodd Gwynne arian **Hugh Owen** a ddiethfeddiasai yr aer cyfreithiol, **John Owen yr epigramydd**, am fod llyfrau hwnnw wedi eu doddi ar 'Index' y pab, sef ymhlith gweithiau y gwaherddid i ddeiliaid Eglwys Rufain eu darllen. Rhoes Gwynne dabled yn y Coleg Seisnig i goffa **Hugh Owen** (*Archæologia Cambrensis*, II, iv, 130-1).

### JOHN BODVEL (neu BODVILLE) (1617 - 1663), cyrnol ym myddin y brenin Siarl I

Mab ac aer Syr John Bodvel, a wnaethpwyd yn farchog yn 1614 ac a fu farw 1631; wyr Hugh Gwyn Bodvel, ac Elisabeth, merch **Syr John Wynn**, Gwydir, ydoedd ef. Aeth i'r Middle Temple yn 1633, ac yn 1640 priododd Ann, merch Syr William Russel, Chippenham, swydd Caergrawnt, cyd-drysorydd y llynges. Bu'n aelod seneddol dros sir Fôn (lle y cawsai ei daid ystad Caerfryn, trwy briodas) yn y Senedd Fer a'r Senedd Faith, gan ochri gyda'r Protestaniaid hynny a oedd yn gwrthwynebu llys y brenin; fe'i dewiswyd (Mawrth 1642) gan Dy'r Cyffredin yn ddirprwy-arglwydd-raglaw sir Gaernarfon.

Ar 2 Awst 1642 caniatawyd iddo ei absenoli ei hun o'r Ty a chafodd hefyd offer rhyfel er mwyn iddo gael amddiffyn 'ei gartref yng Nghymru'; ychydig yn ddiweddarach, fodd bynnag, ymunodd â phlaid y brenin, fe'i gwnaethpwyd yn 'custos rotulorum' sir Fôn yn 1643, a bu yn y Senedd a gyfarfu yn Rhydychen fis Ionawr 1644 - cafodd radd D.C.L. yno yr un pryd. Ym mis Gorffennaf y flwyddyn honno aeth Bodvel a'i deulu i Gaerfryn, a bu'n amlwg i ddechrau fel llwyodraethwr Caernarfon, yna fel cyrnol yn amddiffyn Môn, ac wedi hynny yn y Drafodaeth cyn traddodi'r ynys i'r blaid arall fis Gorffennaf 1646.

Atafaelwyd ei ystadau fis Tachwedd 1647 a bu raid iddo hefyd dalu dirwyon oherwydd iddo gynorthwyo pleidwyr y brenin a wrthryfelodd yn sir Fôn yn 1648. Ffodd dros y môr pan ddiennyddwyd y brenin, a phan ddychwelodd rhoddwyd ei enw yn Act seneddol 1651 a oedd yn delio a mater gwerthu eiddo'r 'delinquents'; ni werthwyd mo'i eiddo ef, fodd bynnag, ac ym mis Ebrill 1655 peidiwyd â'i gyfrif ymysg y 'delinquents.'

Cyn belled yn ôl â 1646 yr oedd ei wraig, a oedd yn Biwritan selog, wedi apelio at Dy'r Arglwyddi am gael symud y plant o ofal eu tad oherwydd yr esiampl ddrwg a roddai ef iddynt; yn 1657 trefnodd hi, heb ei ganiatad ef, briodas rhwng eu hail ferch Sarah, a oedd yn nodedig am ei phrydferthwch, a Robert, mab yr Arglwydd Robartes, Presbyteriaid cyfoethog yng Nghernyw a ' field marshal ' ym myddin Cromwell. Gwrthododd Bodvel gydgnabod y briodas ond wedi'r Adferiad (1660) fe ildiodd a daeth yn dad bedydd i'w ail wyr, Charles Bodvel Robartes, gan addo ei wneuthur yn aer iddo'i hun a rhoddi iddo addysg Gymreig.

Fodd bynnag, buasai ei berthynas, **Thomas Wynn**, Boduan (bu farw 1673), wyr y Thomas Wynn a enwir uchod (gweler dan **Charles Gwynne**, 1582 - 1647), a chyndad yr **Arglwydd Newborough cyntaf**, am beth amser cyn hyn yn cynllwyn i gael ystadau Bodvel; llwyddodd i beri i Bodvel droi yn erbyn ei deulu, trefnodd iddo ymguddio yn Llundain rhag y bobl a oedd am iddo dalu arian echwyn yn ôl iddynt, a phan oedd yn y cyflwr tlawd a greslynus hwn, ac yn wael o ran ei iechyd a'i feddwl, gwnaeth Bodvel ewyllys newydd (1662) a gadael ei ystadau i fab **Wynn**, sef Griffith (a gymerth yr enw Bodvel) ac i gâr arall.

Pan fu John Bodvel farw (Mawrth 1663) daeth yr Arglwydd Robartes a'i fab â chyngaws yn llys y Chancery ac yn Nhy'r Arglwyddi yn erbyn yr ewyllys honno, a llwyddasant, yn 1666, i gael pasio gweithred seneddol yn ei diddymu o blaid CHARLES BODVEL ROBARTES (1660 - 1697), a ddaeth yn ddiweddarach yn ail iarll Radnor yn 1685; buasai brawd hyn Charles farw. Pan oedd ef o dan oed trwyddedwyd Bodvel House (o dan y Declaration of Indulgence, 1672) yn lle y câi Independiaid gyfarfod ynddo i addoli, a bu **James Owen (1654 - 1706)** yn byw yno am beth amser. Buwyd yn ceisio trefnu priodas rhwng Charles Bodvel Robartes a theulu **Gwydir**, ond rhoddwyd terfyn ar y cynigiadau yn 1679, pan oedd ef yn 19 oed. Pan fu farw ei dad (yn 1682) dilynodd ef yn faer Caernarfon a chwnstabl y castell; pan ddaeth yn iarll, fodd bynnag, gwerthodd ei ystadau Cymreig; cadwodd ei swyddi yng Nghymru (swydd ' Chief Ranger of Snowdon ' yn eu plith), gan drefnu i'r dyletswyddau a oedd yn gysylltiedig a hwy gael eu cyflawni gan eraill drosto, ac aeth i fyw i Lundain lle y daeth yn gyfeillgar iawn â'r Deon Swift.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd**, (1891 - 1975)

## Ffynonellau

*Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*, i, 48; vi, 1-22, 33, a'r gweithiau a enwir yno

Ifan ab Owen Edwards, *A Catalogue of Star Chamber Proceedings Relating to Wales* (Cardiff 1929), 32

*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1936, 97-103, 216

*Bulletin of the Board of Celtic Studies*, vii, 358

*The English historical review*, liii, 635

Sir John Wynn (ed. J. Ballinger), *The History of the Gwydir Family* (1927), 1927, 74

Foley, *Records of the English province of the Society of Jesus (1570-1800)*, 1878, iv, 335-6, 399

T. P. Ellis, *The Catholic Martyrs of Wales, 1535-1680*, 1932, 130, 153-4, 181-2

*Llawysgrifau Bodvel yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

*Papurau stad Glynllifon yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* 107, 136, 198, 202, 216, 292, 2443, 2454, 4236-7, 4597

*Llawysgrif Bodewryd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 22

*Llawysgrifau Carreglwyd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* ii, 422, 553, 588, 602, 634, 638, 2212

*Llawysgrifau Llanfair a Brynodyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*, bwndel 94

*Llawysgrif Brogyntyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth* 3/145

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20738019](https://www.wikidata.org/wiki/Q20738019)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeiriodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Dodd, A. H., (1953). *BODVEL (TEULU), Bodfel, Sir Gaernarfon, Caerfryn, sir Fôn, etc.. Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 4 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-BODV-EL0-1550>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwci  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION



Nodi gan  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government